CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Ail-lunio Gwasanaethau Dydd (Oedolion Hŷn, Anableddau Dysgu / Awtistiaeth a darpariaeth seibiant (Gydol Oes)**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Cymeradwyo'r broses ymgynghori ar gyfer ail-lunio gwasanaethau dydd a darpariaeth seibiant ar draws Ceredigion**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

Fel rhan o'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant ar y cyd â nifer o Strategaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol mae'n amserol i ni fel Awdurdod Lleol ymgynghori ar ai-lunio a moderneiddio ein gwasanaethau dydd a darpariaeth seibiant ar draws y Sir.

Bydd yr ymgynghoriad yn ffocysu ar y meysydd allweddol canlynol;

- Cyfleoedd Gwasanaethau Dydd i Oedolion Hŷn gan gynnwys y rheiny sy'n byw gyda diagnosis o dementia
- Cyfleoedd Gwasanaethau Dydd Day ar gyfer unigolion sy'n byw ag anabledd dysgu, awtistiaeth, ac anawsterau dwys a luosog (PMLD)
- Llwybrau pontio gydol oes ar gyfer y rheiny sy'n byw ag anabledd / awtistiaeth
- Darpariaeth seibiant (dydd a phreswyl) gydol oes.

Argymhellir cychwyn ar yr ymgynghoriad ar 9 Ionawr 2022 am gyfnod o 12 wythnos gan gau'r ymgynghoriad ar 31 Mawrth 2022.

Rydym yn y broses o gaffael gwasanaethau cwmni ymgynghori annibynnol i ymgymryd a'r ymgynghoriad. Caiff yr elfen yma ei hariannu drwy Arian Integredig Rhanbarthol (RIF).

Mae'r gwaith yma o dan y Grŵp Llywio Gofalwyr, Cymunedau ac Heneiddio'n dda - Rhaglen 3 TAW.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, nodwch pam**	Mae'r AEI yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael erbyn cychwyn yr ymgynghoriad .
	Crynodeb: Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ar draws Cymru, a enwyd yn y Ddeddf, weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant gan gynnwys:	

- Cymru o gymunedau cydlynus - Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- Cymru sy'n fwy cyfartal– Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Cymru â diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Cymru iachach - "Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol"

Hirdymor: Bydd Strategaeth Gydol Oes a Llesiant yr Awdurdod Lleol yn nodi'r weledigaeth am y 10 mlynedd nesaf. Ar y cyd â hyn mae nifer o strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n darparu mesurau a thargedau tymor byr a hir y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad .

Integreiddio: Yn ôl gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bydd gofynion newydd ar bob sefydliad sy'n comisiynu a darparu gofal. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn gweithio ar y cyd er mwyn ymateb i'r gofynion hynny, gwella gwasanaethau a'u huno cyn belled â phosib er mwyn iddynt fedru sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ein dinasyddion .

Cydweithio: Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid wrth wraidd yr ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu. Y cydweithio mwyaf fydd rhwng cydweithwyr yn y sector cyhoeddus gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sefydliadau Trydydd Sector a swyddogion ar draws yr awdurdod .

Cynnwys: Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn rhan o'r gwaith cynllunio a'r cyfnod ymgynghori.

Atal: Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfleoedd i atal elfennau drwy archwilio cyfleoedd seibiant ehangach i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Argymhelliad / argymhellion:

1. Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar yr ymgynghoriad ar y meysydd canlynol ;
   - Cyfleoedd Gwasanaethau Dydd ar gyfer Oedolion Hŷn gan gynnwys y rheiny sy'n byw gyda diagnosis o dementia
   - Cyfleoedd Gwasanaethau Dydd ar gyfer unigolion syn byw ag anabledd dysgu, awtistiaeth, ac anawsterau dwys a luosog (PMLD)

- Llwybrau pontio gydol oes ar gyfer y rheiny sy'n byw ag anabledd / awtistiaeth
- Darpariaeth seibiant (dydd a phreswyl) gydol oes.

2. Cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu arfaethedig i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach cyn dod yn ôl i'r Cabinet.

Rheswm dros y penderfyniad:	Galluogi'r Awdurdod i fwrw ymlaen â'r gwaith o ail-lunio gwasanaethau dydd a darpariaeth seibiant yn unol â'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant.
Trosolwg a Chraffu :	Yn unol â'r argymhelliad uchod
Fframwaith Polisi:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Act 2014 Cymru Iachach: Cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Cymru Oed Gyfeillgar : ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio Siartr Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru Cod Ymarfer Awtistiaeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: cynllun cyflawni Cynllun Gweithredu Anableddau Dysgu (2022 – 2026) Gwella iechyd a gofal cymdeithasol (COVID-19 edrych ymlaen)
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Buddsoddi yn Nyfodol Pobl
Goblygiadau Ariannol:	Cronfa Integreiddio Rhanbarthol
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Papurau Cefndir:	Amherthnasol
Atodiadau:	Amherthnasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Porth Gofal
Swyddog Adrodd :	Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol
Dyddiad:	9 Tachwedd 2022